

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i
Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar :
Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant mewn Gofal**

Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adroddiad a'r argymhellion a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Mai yn dilyn ei ymchwiliad i'r trefniadau ar gyfer lleoli plant mewn gofal.

Mae gan y Wladwriaeth, fel rhieni corfforaethol plant mewn gofal, rôl bwysig o ran sicrhau bod polisïau a systemau lleol yn gweithio er budd ein plant. Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiolch i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am ei archwiliad cynhwysfawr o'r trefniadau hyn a'i bwyslais penodol ar y prosesau a'r systemau lleol sydd ar waith mewn awdurdodau lleol, asiantaethau maethu a gwasanaethau eraill sy'n darparu gofal i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Nodir isod ymateb manwl Llywodraeth Cynulliad Cymru i bob un o'r 33 o argymhellion a nodwyd gan y Pwyllgor.

Argymhelliad 1

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru i ganfod pa mor aml nad yw'r 'Cynllun Gofal a'r Cofnod Gwybodaeth Hanfodol Rhan 2' yn cael eu cwblhau o fewn 14 niwrnod i leoli plentyn neu berson ifanc mewn lleoliad derbyn gofal, a chymryd y camau priodol i fynd i'r afael ag achosion niferus, yn ôl yr angen.

Derbyn mewn Egwyddor: Mae cwblhau cynlluniau gofal plant yn amserol yn un o flaenoriaethau strategol allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fel y cyfryw, mae data ar 'ganran y lleoliadau cyntaf sy'n dechrau gyda chynllun gofal ar waith' eisoes yn cael ei gasglu fel Dangosydd Strategol Cenedlaethol. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau lleol i gasglu a chyhoeddi data ar gyfer y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, o dan Orchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008. Caiff cydymffurfiaeth â threfniadau cynllunio gofal ei fonitro drwy drefniadau perfformio ac arolygu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Mae canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau gofal gael eu gwneud cyn y bydd plentyn yn derbyn gofal neu, mewn argyfwng, o fewn 14 diwrnod i'r lleoliad. Mae gan y Swyddog Adolygu Annibynnol rôl allweddol o ran adolygu'r cynllun o fewn pedair wythnos i'r dyddiad y bydd y plentyn yn dechrau derbyn gofal fan bellaf.

Fodd bynnag, byddwn yn ysgrifennu at awdurdodau lleol a'u partneriaid i amlygu canfyddiadau ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'u hatgoffa am eu dyletswyddau statudol i blant mewn gofal. Yn ddiweddarach eleni, rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar reoliadau a chanllawiau cyfunol newydd (o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008) ar gyfer lleoli a chynllunio gofal plant sy'n cael eu lletya a phlant mewn gofal a'r trefniadau adolygu ar eu cyfer, gan gynnwys amserlenni diwygiedig ar gyfer cwblhau cynllun gofal o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau'r lleoliad.

Am ragor o wybodaeth am berfformiad gwasanaethau plant ewch i:
<http://www.lgdu-wales.gov.uk>

Goblygiadau Ariannol

Telir y costau o gyllidebau presennol. Bydd cyfanswm o £4.5m ar gael i awdurdodau lleol [drwy'r Grant Cynnal Refeniw] o 2010/11 i weithredu Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

Argymhelliad 2

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaeth ag awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn cynhyrchu gwybodaeth reolaidd a manwl o ran y tueddiadau yn y mathau o leoliadau a'r meysydd diffygiol, a sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd.

Derbyn: Rydym yn cymryd nifer o fesurau i wella'r dewis o ran lleoliadau a gwybodaeth am y farchnad i lywio'r gwaith o gynllunio a chomisiynu lleoliadau ar gyfer plant mewn gofal a pherfformiad y lleoliadau hynny. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dyletswydd digonolrwydd newydd (adran 22G o Ddeddf Plant 1989) i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau i sicrhau bod digon o lety yn eu hardal sy'n diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal ganddynt.
- Annog awdurdodau lleol i reoli eu marchnad mewn ffordd weithredol a gweithio gyda phartneriaid i gefnogi a chynnal amrywiaeth o wasanaethau i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal yn well. Rhaid i hyn gynnwys darparu gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar, megis Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd, a dulliau hyblyg o weithredu megis lleoliadau seibiant i leihau'r angen i gymryd camau gofal.
- Hyrwyddo cydberthnasau effeithiol rhwng awdurdodau lleol fel comisiynwyr a darparwyr ym mhob sector er mwyn sicrhau y gellir cymell marchnadoedd i ddarparu amrywiaeth o leoliadau (cyffredinol ac arbenigol) sy'n diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal.
- Data ar-lein rheolaidd yn cael ei gyhoeddi gan yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant, gan gynnwys; adroddiadau darparwyr, lleoliadau gofal, swyddi gwag ac, yn y tymor canolig, pan fydd dyletswyddau digonolrwydd ar waith, gwell gwybodaeth am y farchnad am dueddiadau o ran lleoliadau, meysydd diffygion ac ati.

Goblygiadau Ariannol

Telir y costau o gyllidebau presennol. Bydd cyfanswm o £4.5m ar gael i awdurdodau lleol [drwy'r Grant Cynnal Refeniw] o 2010/11 i weithredu Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwerthusiad o effeithiolrwydd y broses leoliadau, yn cynnwys y defnydd o'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant, a nodi gwelliannau.

Argymhelliad 4

Fel rhan o'r gwaith o hwyluso'r gwerthusiad y cyfeirir ato yn Argymhelliad 3, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall gofawyr maeth annibynnol gyfleu eu sylwadau o ran effeithiolrwydd y broses leoli, gan gynnwys yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant.

Argymhelliad 5

Fel rhan o'r gwaith o hwyluso'r gwerthusiad y cyfeirir ato yn Argymhelliad 3, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall darparwyr gofal maeth annibynnol gyfleu eu sylwadau o ran effeithiolrwydd eu cyfathrebu ag awdurdodau lleol, gan gynnwys cyfathrebu drwy'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant, ond heb fod yn gyfyngedig iddo.

Derbyn (3 - 5): Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn comisiynu gwerthusiad o'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant. Bydd y gwerthusiad yn cynnwys pob rhanddeiliad o bob sector gan gynnwys; darparwyr gofal maeth a gofal preswyl annibynnol, gwirfoddol a chyhoeddus. Bydd y gwerthusiad yn ystyried effeithiolrwydd yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant fel adnodd sy'n cynorthwyo awdurdodau lleol i nodi lleoliadau addas a'u cyfateb yn well, a'i gapasiti a'i werth yn nhermau ymestyn y defnydd ohono i bob lleoliad a wneir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys y rheini â gofawyr maeth neu leoliadau preswyl cymeradwy mewnol.

Goblygiadau Ariannol

Bydd y gwerthusiad yn costio tua £0.1m a chaiff y swm hwn ei dalu o gyllidebau presennol.

Argymhelliad 6

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau statudol sy'n amlinellu na ddylai awdurdodau lleol fod yn ystyried costau wrth lunio rhestr fer o leoliadau posibl ar gyfer plentyn. Dylai'r canllawiau hyn ddatgan yn glir mai dim ond er mwyn gwahaniaethu rhwng lleoliadau bosibl a allai gynnig canlyniadau addas i'r plentyn dan sylw y dylai'r awdurdod lleol ystyried costau.

Gwrthod: Anghenion y plentyn ddylai gael ei ystyried fel y ffactor penderfynol bob amser wrth benderfynu ar y lleoliad mwyaf addas ar gyfer plentyn. Mae gan awdurdodau lleol, fel rhieni corfforaethol plant sy'n derbyn gofal, ddyletswydd statudol a moesol i leoli plant yn y lleoliad mwyaf priodol sy'n diwallu anghenion yr unigolyn. Mae deddfwriaeth¹ yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried camau diogelwch; lles; cyflawniad addysgol; canfod dyheadau'r plentyn a'r teulu; a rhoi ystyriaeth ddyledus i grefydd, tarddiad hiliol a chefnidir diwylliannol plentyn cyn penderfynu ar leoliad. Mae addasrwydd parhaus lleoliad, neu unrhyw symudiad o ran lleoliad, yn ystyriaeth allweddol i'r Swyddog Adolygu Annibynnol hefyd wrth adolygu achos plentyn.

Bydd y rheoliadau a'r canllawiau newydd y cyfeirir atynt yn Argymhelliad 1 uchod yn atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer lleoliadau, yn gwella canlyniadau ar gyfer plant mewn gofal ac yn rhoi mwy o bwyslais ar ddyheadau a theimladau plentyn wrth benderfynu ar leoliad. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i leoliad gyda pherthynas, ffrind neu berson arall sy'n gysylltiedig â'r plentyn ac sydd hefyd yn rhiant maeth awdurdod lleol. Mae hyn yn adlewyrchu'r polisi a nodir gennym, sef bod "budd plentyn gyda'i deulu, ei deulu cysylltiedig, ffrind neu'r gymuned leol oni fydd risg."

Ymhlith y ffactorau ychwanegol y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu hystyried wrth benderfynu ar y lleoliad mwyaf priodol mae:

- caniatáu i'r plentyn fyw yn agos at ei gartref;
- peidio ag amharu ar addysg na hyfforddiant y plentyn;
- galluogi'r plentyn a brawd/chwaer sy'n derbyn gofal i fyw gyda'i gilydd;
- diwallu anghenion penodol plant anabl;
- darparu llety o fewn ardal yr awdurdod lleol, onid yw hynny'n rhesymol anymarferol.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Telir y costau o gyllidebau presennol. Bydd cyfanswm o £4.5m ar gael i awdurdodau lleol [drwy'r Grant Cynnal Refeniw] o 2010/11 i weithredu Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

¹ Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007
(http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2007/wsi_20070310_en_1)

Argymhelliad 7

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol, sy'n argymhell eu bod yn rhoi ffurflenni cyffredin i ddarparu ofalwyr maeth, yn nodi'r cwestiynau y mae'n awgrymu y dylai'r gofalwr eu gofyn cyn cytuno i ddarparu lleoliad.

Cytuno: Mae nifer o ofalwyr maeth yn gwneud hyn fel arfer da. Byddwn yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r broses o ddatblygu adnoddau arfer da ar y cyd â'r grŵp cynghori traws-sector ar faethu a mabwysiadu.

Goblygiadau Ariannol

Dim - Telir y costau o gyllidebau presennol.

Argymhelliad 8

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau y caiff gofalwyr maeth eu hystyried yn weithwyr proffesiynol yn y gweithlu gofal plant, gan gynnwys cynnal trafodaethau â Chyngor Gofal Cymru tuag at alluogi gofalwyr maeth i ddod o fewn ei gylch gwaith fel Cyngor Sgiliau Sector.

Derbyn: Mae ein strategaeth 10 mlynedd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol "*Bywydau Bodlon - Cymunedau Cefnogol*"² a'r *Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gweithlu Gofal Cymdeithasol* yn cydnabod bod gofalwyr maeth yn rhan hanfodol o'r gweithlu a bod ganddynt lawer i'w gyfrannu fel rhan o'r tîm. Rydym hefyd wedi sefydlu *Grŵp Gorchwyl ar gyfer Gwaith Cymdeithasol a'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol* i ystyried amrywiaeth o welliannau gan gynnwys recriwtio, cadw gweithwyr a phroffesiynoldeb y gweithlu gofal cymdeithasol ehangach sy'n cynnwys gofalwyr maeth.

Rydym yn parhau i weithio gyda Chyngor Gofal Cymru i wella sgiliau a chynyddu capasiti gofalwyr maeth ac rydym wrthi'n datblygu *Fframwaith Ffioedd, Lwfansau a Sgiliau* gyda hyfforddiant sefydlu newydd i ofalwyr maeth. Caiff y fframwaith ei lywio gan waith ymchwil a gynhaliwyd gan LE Wales a Chanolfan Hadley ar gyfer Astudiaethau Mabwysiadu a Gofal Maeth (Prifysgol Bryste). Rydym yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau a'u hopsiynau yn ddiweddarach eleni gydag ymgynghoriad ar Fframwaith a gynigiwyd i Gymru ar gyfer y dyfodol. Yn y tymor hwy, gallai hyn gynnwys gofalwyr maeth yn cael eu cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru.

Goblygiadau Ariannol

² <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/strategies/fulfilledlives?lang=en>

Dim. Telir y costau o gyllidebau presennol ar gyfer "*Bywydau Bodlon - Cymunedau Cefnogol*", ein strategaeth ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol.

Argymhelliad 9

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol, yn argymhell eu bod yn darparu rhestr wirio rhannu gwybodaeth a siart llif i'w gweithwyr cymdeithasol, ynghyd â'r cwestiynau y maent yn eu hawgrymu y dylai ymarferwr eu hystyried wrth benderfynu rhannu gwybodaeth gyda gofalwyr maeth ai peidio.

Argymhelliad 10

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y rhestr wirio rhannu gwybodaeth, y cyfeirir ati yn Argymhelliad 9, yn cynnwys cyfeiriadau at ddulliau priodol o rannu gwybodaeth â phlant gofalwyr maeth.

Derbyn Mewn Egwyddor (9 a 10): Mae rhannu gwybodaeth â gofalwyr maeth yn bwysig er mwyn sicrhau diogelwch a lles y plentyn sy'n cael ei faethu, y gofalwyr maeth ac aelodau eraill o deulu'r gofalwyr maeth. Mae rheoliadau presennol³, safonau gofynnol cenedlaethol⁴ a chanllawiau yn nodi cyfrifoldebau awdurdodau lleol o ran darparu gwybodaeth mewn perthynas â phlentyn a leolwyd neu a gaiff ei leoli gyda rhieni maeth. Rydym wedi ymrwymo i ysgrifennu at awdurdodau lleol ynglŷn â'u dyletswyddau ehangach ar gyfer lleoli plant gan gynnwys trefniadau ar gyfer gofalwyr maeth. Bydd hyn yn dilyn llythyr a anfonwyd at awdurdodau lleol fis Rhagfyr diwethaf yn pwysleisio pwysigrwydd rhannu gwybodaeth â gofalwyr maeth.

Bydd y rheoliadau a'r canllawiau ar gynllunio gofal, lleoliadau ac adolygu achosion y bwriedir cynnal ymgynghoriad arnynt, yn nodi'r wybodaeth y bydd yn rhaid ei chynnwys yn y cynllun lleoli, gan gynnwys gwybodaeth am:

- deulu'r plentyn;
- ei hil, ei grefydd a'i ddiwylliant gan gynnwys yr iaith a siaredir gartref;
- unrhyw anabledau neu anghenion arbennig eraill;
- yr amgylchiadau'n arwain at leoli'r plentyn mewn gofal, a phrofiadau blaenorol y plentyn cyn iddo dderbyn gofal ac yn ystod y cyfnod hwnnw;
- y cynllun hirdymor ar gyfer y plentyn a'i amserlen;
- yr amcanion ar gyfer y lleoliad penodol sy'n cael ei gynnig a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'r cynllun gofal.

Dylid rhoi copi o'r cynllun gofal i'r gofalwr (y gofalwr maeth) pan gaiff ei gwblhau a dylid egluro'r rôl y bydd yn ei gymryd o ran gweithredu'r cynllun.

Bydd y canllawiau statudol cysylltiedig yn nodi y dylai gwybodaeth am iechyd, anghenion addysgol ac anghenion emosiynol ac ymddygiadol y plentyn gan gynnwys sut y gallent effeithio ar y plentyn o ddydd i ddydd gael ei darparu ynghyd â strategaethau priodol ar gyfer ymateb iddynt. Yn ogystal, byddant yn

³ Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 (<http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2003/20030237e.htm>)

⁴ <http://wales.gov.uk/cssiwsite/newcssiw/aboutus/providingsocialcare/childservices/nmschildserv/?lang=en>

pwysleisio pwysigrwydd nodi unrhyw ymddygiad sydd wedi peri pryder i ofalwr blaenorol plentyn ac sydd wedi cyfrannu at fethiant y lleoliad blaenorol.

Fel rhan o'n hymgyngoriad ar drefniadau cynllunio gofal newydd, byddwn yn ystyried ar y cyd â rhanddeiliaid p'un a fyddai rhestr wirio yn seiliedig ar yr uchod yn fuddiol.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Telir y costau o gyllidebau presennol. Bydd cyfanswm o £4.5m ar gael i awdurdodau lleol [drwy'r Grant Cynnal Refeniw] o 2010/11 i weithredu Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

Argymhelliad 11

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i dreialu ffyrdd mwy effeithiol o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau'r llywodraeth, drwy ymgysylltu ag ardaloedd arloesol sy'n cyflwyno'r model gwasanaethau cymorth integredig i deuluoedd.

Derbyn Mewn Egwyddor: Y trefniadau presennol ar gyfer rhannu gwybodaeth â sectorau eraill yw Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Gan adeiladu ar y trefniadau hyn a chanlyniadau astudiaeth gwmpasu a fu'n ystyried y trefniadau presennol a'r trefniadau posibl ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, rydym wedi sefydlu fforwm rhanddeiliaid cenedlaethol i ddatblygu dull cyffredin o rannu gwybodaeth bersonol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol. Nod y rhaglen dwy flynedd gychwyn hon yw sicrhau bod y dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed yn cael y gwasanaethau gorau a bod ymarferwyr yn glir ynghylch pryd y gallant rannu gwybodaeth yn gyfreithiol ac yn ddiogel a phryd na allant wneud hynny. Mae hyn hefyd yn cael sylw'r Fforwm Diogelu Plant Cenedlaethol.

Bydd y dull o weithredu yng Nghymru yn seiliedig ar ddwy elfen gysylltiedig, sef ehangu'r defnydd o WASPI ledled Cymru a sefydlu Cymunedau Rhannu Gwybodaeth ar lefel leol sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o asiantaethau allweddol i gynorthwyo proses weithredu lwyddiannus. Ar hyn o bryd, mae'r cynlluniau'n cynnwys mentrau ar lefelau prosiectau sy'n ymwneud â chamdefnyddio sylweddau, amddiffyn plant, atal derbyniadau i ysbytai a datblygu Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Telir y costau o gyllidebau presennol.

Argymhelliad 12

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau statudol i bob awdurdod lleol, Ymddiriedolaeth GIG a Bwrdd Iechyd Lleol a fydd yn eu galluogi i gynhyrchu protocolau ysgrifenedig rhwng asiantaethau, sy'n ymdrin â: chasglu cydsyniad am asesiadau iechyd, rhannu a chynnal dogfennau personol a dogfennau gwybodaeth iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal; a rhannu gwybodaeth personol rhwng asiantaethau at ddibenion ymgymryd â chyfrifoldebau ar y cyd.

Derbyn mewn Egwyddor: Byddwn yn ymchwilio i hyn ymhellach fel rhan o'n gwaith ar ddatblygu canllawiau statudol ar hybu iechyd a lles plant sy'n derbyn gofal. Byddwn am fanteisio ar gefnogaeth y *Gyfnewidfa Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal* a *Grŵp Nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal Cymru Gyfan* i'n cynorthwyo i ddatblygu ein canllawiau iechyd a lles i blant sy'n derbyn gofal.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod hefyd fod rhannu gwybodaeth yn ganolog i'r broses o ddarparu gofal a gwasanaethau effeithiol i'r sector gwasanaethau cyfan ac mae fframwaith (WASPI) wedi'i sefydlu i alluogi sefydliadau i rannu gwybodaeth mewn ffordd gyfreithlon a deallus.

Mae'r Rhaglen Rhannu Gwybodaeth yn ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau y defnyddir protocol WASPI mewn ffordd gydlynol a chyfrannol ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant a chymorth parhaus i'w ddefnydd yn ogystal â system i fonitro effeithiolrwydd a sicrhau y caiff safonau eu cynnal. Y gobraith yw y bydd yn faes a gaiff ei gynnwys mewn meini prawf arolygu ar draws pob gwasanaeth.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Telir y costau o gyllidebau presennol.

Argymhelliad 13

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol i sicrhau bod dulliau monitro/rheoli/sicrhau ansawdd ar waith wrth gynhyrchu'r protocolau y cyfeirir atynt yn argymhelliad 12, gan gynnwys adolygiadau rheolaidd rhwng yr asiantaethau o ystadegau, perfformiad a data canlyniadau, a'u harchwilio yn erbyn safonau y cytunwyd arnynt o ran prosesau iechyd a hyfforddiant gofal iechyd.

Derbyn Mewn Egwyddor: Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau penodol mewn perthynas ag iechyd a lles y plant sy'n derbyn gofal ganddynt. Roedd ein polisi "*Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell*"⁵ yn ei gwneud yn ofynnol i benodi Nyrsys dynodedig i weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal, ar draws asiantaethau a phroffesiynau, i hybu a chydgysylltu eu hanghenion iechyd. Ystyrir bod y broses o fonitro gwelliannau iechyd plant sy'n derbyn gofal yn rhan o arolygiadau AGGCC a dangosyddion perfformiad awdurdodau lleol er enghraifft, mae'n darparu data blynyddol ar ganran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd asesiad iechyd ac archwiliad deintyddol mewn blwyddyn, meddyg a ddyrannwyd ac ati. Ymhlith y ffynonellau monitro eraill mae Dull Archwilio Hunanasesu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol a dyletswyddau'r Swyddog Adolygu Annibynnol i oruchwylio'r cynllun gofal ar gyfer y plentyn gan gynnwys ei anghenion datblygu ac iechyd.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Mae systemau ar waith ar hyn o bryd.

⁵<http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/towards/;jsessionid=310PLHyfQfQJdfCwt2C9pGy2NZv05f1tBT1yzP2ZvKvXbyJhrNtW!200562741?lang=en>

Argymhelliad 14

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu ei gwaith sy'n ymwneud â rhoi dyletswyddau statudol i Swyddogion Adolygu Annibynnol i gadw llygad ar y gwaith o weithredu'r penderfyniadau a wneir fel rhan o'r gwaith o adolygu lleoliadau.

Argymhelliad 15

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol, yn nodi y dylai lleoliad y cyfarfod adolygu lleoliad gael ei benderfynu, fel arfer, gan y plentyn y mae ei leoliad derbyn gofal yn cael ei adolygu, gyda'r cymorth priodol.

Argymhelliad 16

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol, yn nodi mai'r plentyn y mae ei leoliad derbyn gofal yn cael ei adolygu, ddylai benderfynu pwy fydd yn y cyfarfod, gyda'r cymorth priodol.

Argymhelliad 17

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol, yn nodi y dylai ymatebion plant a phobl ifanc i bapurau ymgynghori, ac a gaiff eu dosbarthu cyn y cyfarfod adolygu lleoliad, gael eu darllen gyda digon o amser cyn y cyfarfodydd er mwyn dylanwadu ar leoliad y cyfarfod adolygu, a'r rhai fydd yn bresennol.

Argymhelliad 18

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol, er mwyn sicrhau bod papurau ymgynghori a gaiff eu dosbarthu i blant a phobl ifanc cyn eu cyfarfod adolygu lleoliad yn addas ar gyfer amgylchiadau unigol y plentyn dan sylw.

Derbyn (14 - 18): Mae gan Swyddogion Adolygu Annibynnol ddyletswyddau statudol eisoes⁶ i fonitro swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas ag adolygu lleoliadau ac unrhyw fethiant i gymryd camau priodol i weithredu argymhellion yr adolygiad. Rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar gynigion (rheoliadau a chanllawiau) i ymestyn rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol i gynnwys arolygiaeth annibynnol o achos y plentyn ac atgyfnerthu'r trefniadau adolygu a llais y plentyn yn y broses.

⁶ Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007
(http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2007/wsi_20070307_en_1)

O dan y cynigion newydd, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi Swyddog Adolygu Annibynnol penodol ar gyfer pob plentyn. Byddwn yn atgyfnerthu dyletswyddau presennol Swyddogion Adolygu Annibynnol er mwyn sicrhau yr ystyrir safbwyntiau'r plentyn. Bydd hyn yn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw safbwyntiau a fynegir gan y plentyn. Bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol hefyd yn gallu gohirio cyfarfodydd adolygu os bydd yn teimlo na fyddai'r broses yn gynhyrchiol o ganlyniad, er enghraifft, i ddiffyg dogfennaeth allweddol neu am nad ymgynghorwyd â'r plentyn ynghylch diben yr adolygiad.

Bydd yn ofynnol i Swyddogion Adolygu Annibynnol siarad yn breifat â phob plentyn cyn pob adolygiad (mewn man a ddewisir ganddynt) fel bod y Swyddog yn cael y cyfle i glywed dymuniadau a theimladau'r plentyn ynghylch y materion a drafodir yn y cyfarfod cynllunio gofal. Bwriad y gofyniad hwn yw sicrhau yr ymgynghorir â'r plentyn yn briodol ynghylch materion sy'n ymwneud â'i ofal a'i fod yn cael y cyfle i gyfrannu at gynnwys y cyfarfod.

Mae'n rhaid i blant hefyd gael cynnig cymorth eiriolwr annibynnol i'w cynorthwyo yn ystod y broses adolygu. Gall hyn olygu y bydd angen i'r Swyddog Adolygu Annibynnol gyfarfod â gweithwyr proffesiynol a/neu rieni'r plentyn ar wahân.

Ni ddylid ystyried mwyach bod achos yn cael ei gyfeirio gan y Swyddog Adolygu Annibynnol at Cafcass Cymru pan fetho popeth arall - gellid ystyried gwneud hynny unrhyw bryd. Dylai'r newidiadau hyn rymuso'r Swyddog Adolygu Annibynnol ymhellach i herio arfer gwael mewn perthynas ag achos y plentyn.

Goblygiadau Ariannol

Telir y costau o gyllidebau presennol. Bydd cyfanswm o £4.5m ar gael i awdurdodau lleol [drwy'r Grant Cynnal Refeniw] o 2010/11 i weithredu Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

Argymhelliad 19

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i gwaith tuag at lunio deddfwriaeth i sicrhau ei bod yn ofyniad cyfreithiol bod pawb sy'n gweithio ym maes lles plant, a dyfodol plant, yn gwrando ar eu lleisiau hwy.

Derbyn: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail i'w holl waith ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r confensiwn wedi'i gyfieithu gyda'n saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys sicrhau y gwrandewir ar blant a phobl ifanc ac y cânt eu trin â pharch. Bydd y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn sicrhau y trosir egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gyfraith.

Mae sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed yn ganolog i Ddeddf Plant 1989 a Deddf Plant 2004, y brif sail ddeddfwriaethol ar gyfer diogelwch a lles plant. Mae sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yn meddu ar y sgiliau ym maes lles plant ac yn gwrando ar blant a phobl ifanc yn greiddiol i fframwaith cymwysterau, sgiliau a chymhwysedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, yn yr un modd â'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a gwasanaethau mamolaeth⁷, rheoliadau a safonau cenedlaethol⁸ ar gyfer lleoliadau a reoleiddir ym maes gwasanaethau plant (canolfannau gofal plant, maethu a chanolfannau preswyl i deuluoedd a chartrefi plant) a'n hagenda cyfranogi. Mae rhai staff, megis swyddogion Cafcass Cymru, yn ymgymryd â dyletswyddau unigol ychwanegol penodol mewn perthynas â diogelwch a lles plant a phobl ifanc mewn achosion llys teulu.

Ar lefel ehangach, bydd y llinell eiriolaeth a chyngor genedlaethol newydd (Meic) yn sicrhau bod pob plentyn yn gallu siarad â rhywun i leisio'i farn os oes ganddo unrhyw bryderon yn ymwneud â lles neu unrhyw bryderon eraill.

Mae'n bwysig bod gan blant sy'n derbyn gofal lais cryf ym mhob un o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, yn enwedig eu lleoliad, a dyma fydd prif ystyriaeth y gyfres newydd o reoliadau a chanllawiau y byddwn yn ymgynghori arnynt.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Telir y costau o gyllidebau presennol. Bydd cyfanswm o £4.5m ar gael i awdurdodau lleol [drwy'r Grant Cynnal Refeniw] o 2010/11 i weithredu Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

⁷ <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/nsfchildrenyoungpeoplematernity/?lang=en>

⁸ <http://wales.gov.uk/cssiwsite/newcssiw/aboutus/providingsocialcare/childservices/nmschildserv/?lang=en>

Argymhelliad 20

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynhyrchu canllawiau statudol sy'n nodi, pan fydd lleoliad yn cael ei adolygu, bod eiriolwr y plentyn yn cael ei hysbysu mewn da bryd i wrando ar safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc am eu lleoliad, a'u cynorthwyo i gwblhau ymatebion i'r papur ymgynghori.

Cytuno mewn Egwyddor: Mae gan bob plentyn sy'n derbyn gofal yr hawl⁹ i gael ei gynorthwyo gan eiriolwr ac mae canllawiau yn hyrwyddo cyfranogiad yr eiriolwr yn yr adolygiad. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt system ar waith i roi gwybodaeth ysgrifenedig, oed-benodol i bob plentyn sy'n derbyn gofal ynghylch swyddogaeth ac argaeledd eiriolwr a sut i wneud cais am eiriolwr.

Yn y cyfarfod a gynhelir â'r plentyn cyn pob adolygiad, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn gyfrifol am sicrhau bod y plentyn yn deall sut y gallai eiriolwr helpu a'i hawl i gael gwasanaethau eiriolwr. Mae eiriolaeth yn opsiwn sydd ar gael i blant pa bryd bynnag y byddant am gael cymorth o'r fath ac nid dim ond pan fyddant am wneud cwyn ffurfiol. Bydd rhai plant yn teimlo'n ddigon hyderus neu'n ddigon abl i gyfrannu neu gymryd rhan yn y broses adolygu heb gymorth ychwanegol. Efallai y byddai'n well gan eraill gael cymorth eiriolwr. Gall yr eiriolwr hwn fod yn benodiad ffurfiol o sefydliad arbenigol neu gall fod yn oedolyn sydd eisoes yn rhan o rwydwaith cymdeithasol y plentyn. Y plentyn fydd yn penderfynu a yw am gael cymorth eiriolwr ai peidio.

Mae gan y Swyddog Adolygu Annibynnol rôl allweddol o ran sicrhau bod safbwyntiau'r plentyn yn cael eu clywed ac yn cael eu hystyried. Bydd dyletswyddau newydd ar awdurdodau i benodi Swyddog Adolygu Annibynnol penodol ar gyfer pob plentyn yn cynorthwyo'r plentyn i feithrin cydberthynas â'i Swyddog Adolygu Annibynnol, gan ei gwneud yn haws i'r plentyn fynegi ei safbwyntiau a'i deimladau ac i'r Swyddog Adolygu Annibynnol gasglu mwy o wybodaeth a meithrin gwell dealltwriaeth o'r plentyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn hwyluso'r broses adolygu. Bydd pwysigrwydd y gydberthynas rhwng y plentyn, yr eiriolwr a'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn un o nodweddion allweddol y canllawiau statudol newydd.

Caiff llais y plentyn yn y broses ei atgyfnerthu ymhellach drwy ein hymgyngoriad ar reoliadau a chanllawiau cyfunol yn y maes hwn.

Goblygiadau Ariannol

⁹ Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004 (<http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2004/20041448e.htm>)

Dim. Telir y costau o gyllidebau presennol. Bydd cyfanswm o £4.5m ar gael i awdurdodau lleol [drwy'r Grant Cynnal Refeniw] o 2010/11 i weithredu Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

Argymhelliad 21

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau statudol i sicrhau bod awdurdodau lleol, fel arfer, yn cynnal cyfweiliadau ar wahân gyda'r bobl ifanc sy'n gadael y system derbyn gofal yng Nghymru; eu gofalwyr maeth; a'u brodyr a chwiorydd maeth.

Derbyn: Bydd newidiadau i rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol yn atgyfnerthu'r gofyniad y gellir ond gwneud newidiadau sylweddol i'r cynllun gofal yn ystod adolygiad plentyn. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw gynllun i sicrhau nad yw'r plentyn yn aros mewn gofal neu gynllun i sicrhau bod person ifanc yn mynd o leoliad wedi'i reoleiddio megis gofal maeth i leoliad lled-annibynnol. Fel rhan o'r adolygiad, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried safbwyntiau'r person ifanc, ei ofalwyr maeth ac unrhyw bobl eraill o bwys.

Fodd bynnag, bydd y gofyniad i'r Swyddog Adolygu Annibynnol gynnal cyfweiliad ymadael gyda'r person ifanc, ei ofalwr a theulu'r gofalwr yn cyflwyno dimensiwn arall i waith y Swyddog Adolygu Annibynnol o ran sicrhau ansawdd y gwasanaeth, gan ddefnyddio ei brofiadau o blant a phobl ifanc a bwydo safbwyntiau yn ôl i wasanaethau, cynlluniau polisi a gwaith ymchwil. Felly, byddwn yn ymgynghori ar y cynnig fel rhan o'r rheoliadau a chanllawiau cyfunol newydd ar rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Telir y costau o gyllidebau presennol. Bydd cyfanswm o £4.5m ar gael i awdurdodau lleol [drwy'r Grant Cynnal Refeniw] o 2010/11 i weithredu Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

Argymhelliad 22

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch fawr i hwyluso recriwtio gofalwyr maeth.

Gwrthod: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol yn ystod *Pythefnos Gofal Maeth* drwy ei grant i sefydliadau maethu a mabwysiadu, gwaith hyrwyddo gan Weinidogion a phresenoldeb mewn digwyddiadau lansio i amlygu pwysigrwydd rôl gofalwyr maeth a'u cyfraniad gwerthfawr i'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod digon o amrywiaeth o lety a gwasanaethau ar gael i blant, ac ansawdd y gweithlu sy'n darparu gofal. Rôl y Llywodraeth yw sicrhau bod fframwaith clir o safonau a rheolau y gellir mesur ansawdd a phroffesiynoldeb y gofal a ddarperir yn ei erbyn. Er enghraifft, yn achos gofalwyr maeth, mae'n rhaid iddynt fodloni rheoliadau cenedlaethol a safonau cymeradwyaeth. Drwy'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC), rydym wedi hwyluso'r broses o sefydlu pedair rhaglen gydweithredol ranbarthol i ddod at ei gilydd i ymgymryd â gwaith comisiynu mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin a chynnig gwell gwerth o ran arbedion maint er mwyn cyflawni gwaith comisiynu mwy deallus. Er enghraifft, mae Rhaglen Welliant Gydweithredol De-Ddwyrain Cymru (SEWIC) sy'n cynnwys 10 awdurdod lleol, yn darparu asiantaeth faethu ranbarthol sy'n arwain y gwaith o recriwtio a hyfforddi gofalwyr maeth a chynnig cymorth arall iddynt.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad 23

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn egluro a diwygio'r canllawiau presennol, lle y mae angen hynny, sy'n ymwneud ag awdurdod gofawyr maeth i wneud penderfyniadau rhianta dyddiol, gan gynnwys mewn cysylltiad ag aros dros nos a gwibdeithiau'r ysgol.

Cytuno: Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau statudol¹⁰ ar awdurdod dirprwyedig i ofalwyr maeth yn 2004 (Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 50/2004). Caiff y canllawiau hyn eu haildatgan mewn rheoliadau a chanllawiau ar gynllunio gofal, lleoliadau ac adolygiadau yr ydym yn bwriadu ymgynghori arnynt.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Telir y costau o gyllidebau presennol. Bydd cyfanswm o £4.5m ar gael i awdurdodau lleol [drwy'r Grant Cynnal Refeniw] o 2010/11 i weithredu Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

Argymhelliad 24

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol i sicrhau y caiff cytundebau gofal maeth eu hadolygu'n flynyddol.

Cytuno. Caiff hyn ei annog yn y canllawiau newydd i gynorthwyo'r broses o gynllunio gofal, lleoliadau ac adolygiadau. Mae'n rhaid i gymeradwyaeth gofawyr maeth gael ei hadolygu'n flynyddol o dan *Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003*¹¹. Fel rhan o'r trefniadau hyn a'r broses o adolygu achosion plant, byddwn yn pwysleisio bod angen i awdurdodau lleol ystyried adolygiad o drefniadau gofal maeth.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Telir y costau o gyllidebau presennol. Bydd cyfanswm o £4.5m ar gael i awdurdodau lleol [drwy'r Grant Cynnal Refeniw] o 2010/11 i weithredu Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

¹⁰ Delegation of Decisions on Overnight Stays for Looked After Children
(<http://wales.gov.uk/publications/circular/circulars04/NAFWC502004?lang=en>)

¹¹ Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003
(<http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2003/20030237e.htm#29>)

Argymhelliad 25

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn hwyluso rhyw fath o gydnabyddiaeth i ofalwyr maeth hyfforddedig nad oes ganddynt blentyn ar leoliad maeth dros dro.

Gwrthod: Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu a ddylid talu lwfansau cadw i ofalwyr maeth fel rhan o'i wasanaethau gofal maeth. Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cyngor cyffredinol yn hyn o beth, ond ni fyddem am fod yn rhy rhagnodol. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw diwallu anghenion y plant sy'n derbyn gofal ganddo ac mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cyflenwad digonol o ofalwyr maeth ar gael.

Fodd bynnag, byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar *Fframwaith Ffioedd, Lwfansau a Sgiliau*. Mae'r cynigion yn adeiladu ar astudiaeth gynhwysfawr o awdurdodau lleol, asiantaethau gofal maeth, gofalwyr maeth, eu teuluoedd a'r plant sy'n derbyn gofal ganddynt, ar y trefniadau sydd ar waith ledled Cymru ar hyn o bryd. Bydd y fframwaith yn nodi cynigion ar gyfer pennu'r lwfansau lleiaf (gyda phwyntiau adolygu bob tair blynedd) ac yn annog awdurdodau lleol i weithio tuag at ddulliau cyson o weithredu fframwaith ffioedd a sgiliau.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad 26

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys sefydliadau gofal maeth, gofalwyr maeth a phlant maeth wrth ddatblygu ac ehangu'r ddarpariaeth ac argaeledd llinell gyngor gofal maeth, gan gynnwys gwasanaethau ffôn, e-bost a thestun ar gyfer gofalwyr maeth.

Cytuno Mewn Egwyddor: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu Rhwydwaith Maethu Cymru i redeg Llinell Maethu Cymru, llinell gyngor benodol ar gyfer gofalwyr maeth, gwasanaethau maethu ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn maethu. Mae'r llinell gyngor yn cwmpasu pob agwedd ar faethu a gellir ei ffonio ar y rhif rhadffon: 0800 316 7664 rhwng 9.30 a 12.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu drwy e-bostio fosterlinewales@fostering.net.

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion a godwyd i lywio polisi. Byddwn yn parhau i fonitro lefel y galwadau a wneir i'r llinell gymorth er mwyn llywio unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch ehangu'r ddarpariaeth a sicrhau bod ein trefniadau cytundebol yn golygu bod rhanddeiliaid yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu a sicrhau ansawdd y gwasanaeth Llinell Maethu.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Telir y costau o gyllidebau presennol.

Argymhelliad 27

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar ffyrdd o herio cynrychioliadau'r cyfryngau ac argraffiadau'r cyhoedd o weithwyr cymdeithasol, fel eu bod yn cynnig amgylchedd lle mae ffocws cadarnhaol ar yr hyn a gaiff ei gyflawni gan weithwyr cymdeithasol a'r cyfraniadau a wneir ganddynt.

Argymhelliad 28

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau â Chyngor Gofal Cymru ac awdurdodau lleol, tuag at greu a threialu swydd Ymgynghorydd Gwaith Cymdeithasol. Rhagwelwn y byddai'r swydd hon yn cael y gydnabyddiaeth a'r parch priodol, y byddai'n cynnwys mentora cydweithwyr iau, ond y ffocws pennaf fyddai gwaith proffesiynol gyda phlant a phobl ifanc.

Argymhelliad 29

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r system derbyn gofal, gyda'r bwriad o ganfod a all rhai mathau o wybodaeth gael eu cofnodi gan gydweithwyr gweinyddol, yn hytrach na'r gweithwyr cymdeithasol eu hunain.

Argymhelliad 30

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod gan y gweithwyr cymdeithasol, fel rhan o'u hyfforddiant, gyfle i siarad â meibion a merched grwpiau gofalwyr maeth.

Derbyn Mewn Egwyddor (27 - 30): Ein gweithlu gofal cymdeithasol yw un o asedau mwyaf gwerthfawr y gwasanaeth gofal cymdeithasol ac mae ganddo rôl fawr i'w chwarae o ran cefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae rôl gwaith cymdeithasol yn gymhleth ac yn heriol iawn ac mae hynny'n golygu ei fod yn wynebu pwysau unigryw. Erys yr her o sicrhau bod y proffesiwn gwaith cymdeithasol yn cael y proffil a'r gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu. Gall y cyfryngau fod yn ffynhonnell bwerus o ran hyrwyddo'r tasgau a'r heriau sylweddol y mae gweithwyr cymdeithasol yn eu hwynebu wrth ddiogelu a helpu pobl sy'n agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae'r proffil, y ffordd orau y gallwn wella a hyrwyddo rhagoriaeth broffesiynol mewn ymarfer gofal cymdeithasol, gan gynnwys fframwaith gyrfa newydd, yn ganolog i waith y Grŵp Gorchwyl cenedlaethol ar gyfer *Gwaith Cymdeithasol a'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol*. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru i ddatblygu dilyniant gyrfa ym maes gwasanaethau teulu.

Mae Cyngor Gofal Cymru wrthi'n adolygu'r radd mewn Gwaith Cymdeithasol ac mae gwaith cynnar wedi nodi bod angen sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu eraill, waeth beth fo natur eu dysgu ymarfer. Bydd Cyngor Gofal Cymru (y Cyngor) yn sicrhau bod y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad ac yn nodi ffyrdd o fynd i'r afael â'r argymhelliad.

O ran yr amser a dreulir gan weithwyr cymdeithasol yn y broses, mae tystiolaeth ynghylch cymhlethdod y System Plant Integredig ac rydym wrthi'n ystyried hyn ar y cyd â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gyda'r bwriad o symleiddio systemau. Byddwn hefyd am fanteisio ar unrhyw wersi a ddysgir o'r Adolygiad o'r System Plant yng Nghastell-nedd Port Talbot y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gynorthwyo drwy'r rhaglen Buddsoddi i Arbed.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Telir y costau o gyllidebau presennol ar gyfer *Bywydau Bodlon - Cymunedau Cefnogol*, ein strategaeth ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol.

Argymhelliad 31

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau yn sefydlu y dylai pob Bwrdd GIG a Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru enwebu Meddyg Plant sy'n Derbyn Gofal Chymdeithas Mabwysiadu a Meithrin Prydain (BAAF) / Coleg Pediatrig ac Iechyd Plant Brenhinol (RCPCH) o fewn amser diogelu penodol i gynnig yr ymgynghoriad clinigol angenrheidiol a rheoli'r seilwaith o systemau, prosesau a gweithdrefnau gwybodaeth a thrafodaethau, gwaith archwilio a monitro rhwng asiantaethau.

Cytuno Mewn Egwyddor: Mae gan y GIG a BILlau rôl glir o ran sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu mewn modd amserol ac effeithiol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Mae amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol sy'n hybu iechyd plant sy'n derbyn gofal.

Mae'n ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru gael meddygon dynodedig a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sydd â chyfrifoldebau strategol am hybu iechyd plant sy'n derbyn gofal a'u diogelu.

Mae'n ofynnol i bob ardal gael nyrs arbenigol dynodedig sy'n cydgysylltu gofal cyfannol y plentyn sy'n derbyn gofal ac yn sicrhau bod y BILl yn cyflawni ei ddyletswyddau iechyd cyffredinol a phenodol mewn perthynas â'r plentyn sy'n derbyn gofal, gan gynnwys cwblhau asesiad iechyd statudol, trosglwyddo cynlluniau iechyd, cofrestru'r plentyn â meddyg teulu a deintydd, mynediad i CAMHS arbenigol ac ati.

Mae gan lawer o ardaloedd BILl amrywiol feddygon penodol sy'n ymgymryd â nifer o rolau gan gynnwys iechyd plant sy'n derbyn gofal lle y gall dyletswyddau gynnwys cefnogi'r broses fabwysiadu drwy ddarparu asesiadau meddygol ac ati. Mae'r ymarfer sydd ar waith ledled Cymru yn amrywio ac fel rhan o'n cynigion i ddatblygu canllawiau ar hybu iechyd plant sy'n derbyn gofal, byddwn yn ystyried system fwy ffurfiol ar gyfer meddygon dynodedig ym mhob ardal BILl. Bydd y Gyfnewidfa Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal yn adnodd gwerthfawr y byddwn am ei ddefnyddio wrth ddatblygu'r canllawiau iechyd.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Telir y costau o gyllidebau presennol.

Argymhelliad 32

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau, yn sefydlu y dylai pob Bwrdd GIG a phob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru gael nyrs arbenigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Argymhelliad 33

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol i sicrhau bod dulliau clir, archwiliadwy ac effeithiol a llinellau atebolrwydd clir ar gyfer trosglwyddo gofal, gan gynnwys gofal iechyd, pan gaiff plentyn ei leoli y tu allan i'r sir, ac ar draws unrhyw ffiniau gwasanaethau mewnol.

Cytuno Mewn Egwyddor (32 a 33): Roedd ein polisi, *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell*¹², a ategwyd gan reoliadau a chanllawiau statudol, yn atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer iechyd, addysg a lles plant sy'n derbyn gofal a'r lleoliadau a drefnwyd ar eu cyfer. Mae'r polisi hwn yn gosod dyletswyddau ar fyrddau iechyd lleol i benodi ymarferwyr iechyd arbenigol (Nyrsys Clinigol Arbenigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal). Mae'r Nyrs Glinigol Arbenigol yn gyfrifol am gydgyssylltu cynllun gofal iechyd y plentyn a mynd i'r afael ag anghenion iechyd plant sy'n derbyn gofal. Mae'r polisi hefyd yn darparu nifer o brotocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth, trosglwyddo cofnodion clinigol y plentyn ac ati.

Mae *Tuag at Fywyd Sefydlog* hefyd yn nodi'r trefniadau ar gyfer lleoli plant y tu allan i'r ardal. Mae'n gosod dyletswyddau'n ymwneud ag iechyd ac addysg plant a throsglwyddo cofnodion meddygol, cofnodion eraill ac ati yn gadarn yn nwylo awdurdodau lleol a BILlau ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu paneli aml-asiantaeth gan gynnwys cael cytundeb y Pennaeth Gwasanaeth i leoli unrhyw blentyn y tu allan i'r ardal. Roedd trefniadau'r Comisiynydd Cyfrifol yn egluro dyletswyddau'r BILI o ran cyfrifoldeb am ofal iechyd eilaidd y plentyn.

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau newydd ar ***Ddyletswyddau Corff Cyfrifol*** BILlau yn fuan a bydd y canllawiau hyn yn atgyfnerthu eu dyletswyddau mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Bydd ein gwaith ymgynghori yn y dyfodol ar ganllawiau hybu iechyd plant sy'n derbyn gofal yn cyfuno'r holl ofynion presennol yn hyn o beth.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Telir y costau o gyllidebau presennol.

¹²<http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/towards/?jsessionid=310PLHyfOfQJdfCwt2C9pGy2NZv05f1tBT1yzP2ZvKvXbyJhrNtW!200562741?lang=en>